



Beth welwch chi?

Mwynhewch awr o wyllo natur a chyfrif yr adar yn eich gardd neu o'ch balconi.

Gwnewch amser i fyd natur – a chi'ch hun!

Sut i gymryd rhan. Mae pawb yn cyfrif!

1. Cyfrifwch yr adar am awr yn eich gardd neu o'ch balconi rhwng **29 a 31 Ionawr 2021**.

Dim ond y rheini sy'n glanio y dylech eu cyfrif, nid y rheini sy'n hedfan drosodd. Cyfrwch y nifer mwyaf o adar a welwch ar unrhyw un adeg – fel arall gallech gyfrif yr un aderyn ddwywaith.

2. Cyflwynwch eich canlyniadau erbyn **15 Chwefror 2021**. Ewch i [rspb.org.uk/birdwatch](https://www.rspb.org.uk/birdwatch), a defnyddio'r cod **BH31** i ddweud wrthym beth welsoch chi.

Drwy gyflwyno eich canlyniadau ar-lein, rydych chi'n ein helpu ni i wario mwy ar achub natur. Fodd bynnag, os na allwch wneud hynny, gallwch argraffu copi o'r ffurflen hon, ei llenwi a'i dychwelyd drwy'r post. Rhowch y ffurflen mewn amlen ac ysgrifennwch **FREEPOST RSPB BIG GARDEN BIRDWATCH** ar flaen yr amlen. Gwnewch yn si r mai dim ond y geiriad hwn sy'n ymddangos ar yr amlen ddychwelyd. Mae'n gyfeiriad byr, ond gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd yn ein cyrraedd.

Enw'r aderyn

a welais fwyaf ar un adeg

Aderyn du	<input type="checkbox"/>
Titw tomos las	<input type="checkbox"/>
Ji-binc	<input type="checkbox"/>
Titw penddu	<input type="checkbox"/>
Turtur dorchog	<input type="checkbox"/>
Llwyd y gwrych	<input type="checkbox"/>
Nico	<input type="checkbox"/>
Titw mawr	<input type="checkbox"/>
Llinos werdd	<input type="checkbox"/>
Aderyn y to	<input type="checkbox"/>
Titw cynffon hir	<input type="checkbox"/>
Pioden	<input type="checkbox"/>
Robin goch	<input type="checkbox"/>
Drudwen	<input type="checkbox"/>
Ysguthan	<input type="checkbox"/>
Adar eraill	<input type="text"/>

Rhagor o wybodaeth: [rspb.org.uk/birdwatch](https://www.rspb.org.uk/birdwatch)

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ym mis Ebrill. Cofiwch rannu sut yr aeth hi ar **#SesiwnGwylloAdarYrArdd**

Cadw mewn cysylltiad – ar eich telerau chi

Diolch i chi am feddwl a gwarchod byd natur. Rydym ni'n benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i'w achub. Rydych chi'n rhan bwysig iawn o hynny, a dyna pam rydym ni am i chi gael gwybod am y gwaith cadwraeth, ymgyrchu, ymchwil a chodi arian a wnawn.

Os ydych chi'n hapus i'r RSPB a Siop RSPB gadw mewn cysylltiad â chi, gadewch i ni wybod ym mha ffordd yr hoffech chi glywed gennym ni.

Post	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<i>Ticiwch 'le' neu 'Na' ym mhob opsiwn er mwyn sicrhau bod eich ffurflen yn ddilys</i>
Ffôn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
E-bost	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Neges destun	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Chi sy'n rheoli pethau. Os hoffech chi newid eich dewisiadau yn nes ymlaen, y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw ein ffonio ni ar **01767 693680** neu ewch i [rspb.org.uk/preferences](https://www.rspb.org.uk/preferences). Os byddwch chi'n dewis cadw mewn cysylltiad, byddwn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi hefyd am aelodaeth, cynnyrch, cynigion a chystadlaethau.

Caiff eich manylion eu cadw'n saff a diogel. Dim ond ni, neu'r rheini sy'n gweithio i ni, fydd yn eu defnyddio ac ni fyddant yn cael eu rhannu â neb arall. Er mwyn dod i ddeall ein cefnogwyr yn well rydym yn cyfuno a'n dadansoddi'r wybodaeth yr ydych yn ei ddarparu; gyda beth yr ydym yn gwybod am sut yr ydych wedi ein helpu; a ffynonellau data allanol eraill. Mae hyn yn ein helpu i benderfynu pa gyfathrebiadau fydd o ddiddordeb i chi ac arbed yr adnoddau sydd ar gael i'n gwaith cadwraeth. Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon hefyd i gyflawni gwaith ein helusen, e.e. os byddwch chi'n archebu neu'n gwneud cyfraniad, bydd angen eich manylion arnom ni i brosesu'r rhain.

Defnyddiwch LYTHRENAU BRAS

Teitl (Mr, Mrs, Miss, Ms, Mx, ac ati)

Enw cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Sir

Ardal Cyngor

Cod Post

Rhif Ffôn

Ffôn symudol

E-bost

(i rai dros 18 oed yn unig)

Dyddiad geni (os ydych dan 18 oed)

Faint o bobl wnaeth gymryd rhan? Oedolyn Plant

Os na wnaethoch chi gynnal eich sesiwn Gwyllo Adar yr Ardd gartref, ble wnaethoch chi hynny?

Cod post (os yw'n wahanol i'r uchod)

Rhowch wybod eich canlyniadau inni erbyn 15 Chwefror 2021.

Cyflwynwch eich canlyniadau ar-lein ar: [rspb.org.uk/birdwatch](https://www.rspb.org.uk/birdwatch) gan ddefnyddio'r cod **BH31**. Mae'n gyflym, yn hawdd ac mae'r arbedion a wneir o ran costau postio a phrosesu, yn ein helpu i wario mwy ar gadwraeth.